

## **Modiwl 7: Profi, Olrhain ac Ynysu**

### **Amlinelliad Drafft Dros Dro o'r Cwmpas**

*(yn amodol ar gyflwyniadau gan Gyfranogwyr Craidd a Chwnsler i'r Ymchwiliad)*

Bydd y modiwl hwn yn edrych ar, ac yn gwneud argymhellion ar, y dull o brofi, olrhain ac ynysu<sup>1</sup> a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2020 hyd Chwefror 2022.

Bydd y modiwl yn ystyried y polisiau a'r strategaethau a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd i gynorthwyo'r system profi, olrhain ac ynysu gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Bydd yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan gyrff allweddol, opsiynau neu dechnolegau eraill a oedd ar gael a ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar gydymffurfiaeth y cyhoedd

Bydd Modiwl 7 yn archwilio:

1. Polisiau a strategaethau profi, olrhain ac ynysu a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd, gan ystyried modelu, gallu'r systemau drwy gydol y pandemig a'r rhesymeg, priodoldeb a'r data sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau'r DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac ystyriaethau polisi ffiniau ehangach.
2. Argaeledd, defnydd ac effeithiolrwydd gwahanol dechnolegau, polisiau a strategaethau profi, olrhain ac ynysu, gan gynnwys profion llif ochrol a PCR, profi amrywiadau, olrhain cyswllt digidol a thechnolegau profi eraill.
3. Strwythur y system profi, olrhain ac ynysu a'r cyrff allweddol sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau yn y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig. Bydd yn cynnwys effeithiolrwydd ac effaith y modelau a fabwysiadwyd, y defnydd o'r sector preifat a sefydliadau eraill a'r gost.
4. Gorfodi gweithdrefnau profi, olrhain ac ynysu a ffactorau sy'n dylanwadu ar gydymffurfiaeth, megis digonolrwydd ac ymddiriedaeth mewn negeseuon, cymorth ariannol ac ymarferol i'r rhai sydd eu hangen i ynysu ac argaeledd a defnydd data wrth wneud penderfyniadau.
5. Diogelu seilwaith, gallu ac ymchwil i wella a datblygu cynlluniau profi, olrhain ac ynysu ar gyfer pandemigau yn y dyfodol.

*\*Nodyn i Gyfranogwyr Craidd posibl ar gyfer Modiwl 7*

*Mae gan y Cadeirydd ddiddordeb arbennig mewn derbyn ceisiadau Cyfranogwyr Craidd gan yr unigolion neu'r cyrff hynny a wnaeth benderfyniadau allweddol yn y system profi, olrhain ac ynysu, yn hytrach na cheisio ceisiadau gan y nifer fawr o gyflenwyr a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau neu offer profi, olrhain ac ynysu yn y pandemig. Efallai y bydd rhai cyflenwyr yn gallu cyfrannu at yr Ymchwiliad drwy ddarparu tystiolaeth am eu profiad, ond nid oes angen iddynt fod yn Gyfranogwr Craidd i wneud hynny. Ymhellach, byddai'r Cadeirydd yn gofyn i Gyfranogwyr Craidd posibl ganolbwyntio ar gwmpas arfaethedig y modiwl hwn cyn cyflwyno cais. Ymdrinnir ag agweddau eraill ar y system mewn gwahanol fodiwlau e.e. caffael.*

---

<sup>1</sup> Mae hyn yn cynnwys Profi a Diogelu (Yr Alban), Profi ac Olrhain (Lloegr), Profi, Olrhain, Amddiffyn (Cymru) a Phrofi, Olrhain a Diogelu (Gogledd Iwerddon).